# Safonau Digidol Addysg

## Safon H: Hidlo Cynnwys y We

**Dosbarthiadau categori**

Dylai'r categori gael ei rwystro'n benodol.

Dylai'r categori gael ei ganiatáu’n benodol. Bydd cynnwys yn cael ei sganio mewn amser real ar gyfer unrhyw gysylltiad â chategorïau wedi'u rhwystro gan y darparwr hidlo achrededig. Bydd unrhyw gynnwys sy'n gysylltiedig â chategori sydd wedi'i rwystro hefyd yn cael ei rwystro.

Dylid rhwystro’r categori hwn, ond gall y cynnwys hwn fod yn berthnasol o fewn lleoliad addysgol. Gweithwyr addysg proffesiynol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am statws y gwefannau hyn gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel ysgol mewn trafodaeth â'ch awdurdod lleol.

## Deunydd Oedolion a Deunydd Cignoeth

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Erthylu[1] | Gwefannau sy'n cyfeirio at erthylu, gan gynnwys cyfeiriadau "pleidiol i fywyd" a rhai "pleidiol i ddewis". | | | | |
| Anonestrwydd Academaidd | Gwefannau sy'n cynnig cymorth â thâl a/neu ddeunydd gwaith cartref wedi'i ysgrifennu ymlaen llaw i fyfyrwyr | | | | |
| Cynnwys Cymysg i Oedolion | Cynnwys sydd yn bennaf ar gyfer oedolion o ran natur, gyda chynnwys fel iaith anweddus neu jôcs i oedolion, ond nid pornograffi. | | | | |

[1] Wedi'i rwystro ar gyfer dysgwyr iau gan nad yw atal beichiogrwydd yn cael ei addysgu tan yr ysgol uwchradd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Alcohol a Thybaco[2] | Gwefannau sy’n ymwneud â defnyddio, gwerthu, cynhyrchu a hyrwyddo diodydd alcoholig a thybaco (gan gynnwys e-sigarennau). | | | | |
| Cam-drin Plant[3] | Allweddeiriau cam-drin plant wedi'u cyfrannu gan yr Internet Watch Foundation (IWF) | | | | |
| Gweithgarwch Troseddol | Gwefannau sy'n darparu naill ai cyfarwyddiadau neu adnoddau sy'n hwyluso gweithgarwch anghyfreithlon, fel datod cloeon, cardiau adnabod ffug a thwyll. | | | | |
| Cyffuriau[4] | Gwefannau sy'n ymwneud â gwerthu, gweithgynhyrchu, hyrwyddo neu ddefnyddio cyffuriau adloniannol a rhai presgripsiwn | | | | |
| Tân gwyllt | Prynu a gweithgynhyrchu tân gwyllt a dyfeisiau pyrotechnegol | | | | |
| Gamblo | Gwefannau sy'n darparu gwasanaethau gamblo a gwasanaethau sy’n gysylltiedig â gamblo, fel casinos, betio ar chwaraeon ac ati. | | | | |
| Cynnwys Gwaedlyd | Gwefannau sy'n disgrifio neu arddangos cynnwys gwaedlyd. | | | | |
| Hela a Champau Hela[5] | Arfau hela a saethu at darged | | | | |
| Termau chwilio Amhriodol/Anweddus[6] | Yn cynnwys rhestrau o eiriau Amhriodol/Anweddus neu Regfeydd, | | | | |

[2] Nid yw’r hidlydd yn rhwystro gwefannau addysgol a gwybodaeth am atal alcohol a thybaco.

[3] Nid yw gwefannau cymorth fel yr NSPCC yn cael eu rhwystro gan yr hidlydd.

[4] Nid yw gwefannau addysgol fel 'Talk to Frank' yn cael eu rhwystro gan yr hidlydd.

[5] Efallai y bydd angen i ddysgwyr sy'n astudio TGAU Addysg Gorfforol gael mynediad at gynnwys saethyddiaeth.

[6] Yn ôl Smoothwall, bydd rhwystro'r categori hwn ar gyfer dysgwyr hŷn yn debygol o arwain at or-rwystro a allai rwystro dysgu yn hytrach na'i helpu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | termau chwilio yn unig, dim cynnwys neu gyfeiriadau URL | | | | |
| Dillad Isaf a Dillad Nofio | Gwefannau sy'n cynnwys lluniau o ddillad rhywiol, dengar, dillad sy'n dangos popeth, neu fathau eraill o ddillad awgrymog, fel dillad isaf a dillad nofio. | | | | |
| Anoddefgarwch | Gwefannau sy'n ymwneud ag anoddefgarwch o unrhyw fath neu'n ei hyrwyddo | | | | |
| Mariwana | Gwybodaeth, offer, adnoddau a thrafodaeth ynghylch defnyddio neu dyfu mariwana. | | | | |
| Noethni | Gwefannau sy'n cynnwys noethni neu'n hyrwyddo ffordd o fyw fel noethlymunwr neu noethlymunwraig, nad ydynt yn bornograffig eu natur | | | | |
| Pornograffi | Gwefannau pwrpasol ar gyfer cynnwys pornograffig, boed yn gynnwys sain, cynnwys gweledol neu'n destun | | | | |
| Hunan-niweidio[7] | Gwefannau sy'n ymwneud â hunan-niweidio, hunanladdiad ac anhwylderau bwyta | | | | |
| Rhywioldeb[8] | Cynnwys wedi'i seilio'n bennaf ar rywioldeb, a allai fod yn anaddas i gynulleidfaoedd ieuengach. | | | | |
| Terfysgaeth | Gwefannau a ddarperir gan gangen Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth Swyddfa Gartref y DU, sy'n cynnwys deunyddiau o blaid terfysgaeth | | | | |
| Trais | Gwefannau sy'n ymwneud yn benodol â thrais, boed hynny drwy wawdio neu fwlio | | | | |

[7] Nid yw gwefannau cymorth hunan-niweidio yn cael eu rhwystro.

[8] Efallai ei fod yn anaddas i ddysgwyr iau ond ni ddylid ei rwystro ar gyfer dysgwyr hŷn

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arfau[9] | Gwefannau sy'n trafod a/neu werthu arfau, gan gynnwys drylliau, llafnau, ffrwydron, a dyfeisiau cynnau tân. | | | | |

## Celfyddydau ac Adloniant

| **Categori[10]** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cartwnau a Manga | Nofelau graffig, Manga, Anime, a gweithiau darluniadol eraill, ac eithrio Hentai gan mai Pornograffi ydyw | | | | |
| Enwogion | Gwefannau sy'n ymwneud ag unrhyw gyfryngau enwogion, gwefannau i ddilynwyr neu newyddion am enwogion | | | | |
| Adloniant | Gwefannau sy'n ymdrin â diwylliant poblogaidd fel newyddion am enwogion a chlecs | | | | |
| Digwyddiadau | Gwefannau sy'n hyrwyddo a thrafod digwyddiadau byw e.e. cynyrchiadau dramatig/theatrig byw a gwyliau | | | | |
| Hiwmor a Difyrrwch | Gwefannau anghynhyrchiol sy'n boblogaidd gyda phlant, sy'n aml yn bwrpasol ar gyfer hiwmor, gan gynnwys jôcs, fideos, delweddau doniol a dychan | | | | |
| Ffrydio byw | Parthau a chyfeiriadau URL sy'n ffrydio fideos yn fyw | | | | |

[9] Nid yw'n cynnwys arfau hanesyddol a fyddai'n dod o dan filwrol.

[10] Mae gwefannau ffrydio fel Prime, Disney+ a Netflix wedi'u rhwystro oherwydd hawliau Darlledu Cyhoeddus.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffilmiau | Gwefannau, adolygiadau a thrafodaethau yn ymwneud â ffilmiau | | | | |
| Cerddoriaeth a Sain | Gwefannau sy’n trafod, hyrwyddo, marchnata a dosbarthu cerddoriaeth. Gan gynnwys gwefannau i ddilynwyr, gwefannau sy’n darparu geiriau i ganeuon, gwefannau rhestrau chwarae, gwefannau artistiaid a phynciau cerddoriaeth | | | | |
| Chwaraeon | Gwefannau yn trafod neu’n hyrwyddo unrhyw chwaraeon, gan gynnwys tudalennau hafan timau chwaraeon | | | | |
| Cyfryngau Ffrydio | Fideos digidol a chynnwys cynnal delweddau gan gynnwys sioeau teledu a ffilmiau | | | | |

## Busnes a Llywodraeth

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | Gwefannau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth - Peiriannau, da byw, cnydau | | | | |
| Busnes | Gwefannau ar gyfer busnesau a sefydliadau masnachol, lle mae’r sefydliad yn darparu nwyddau neu wasanaethau am dâl. | | | | |
| Elusennau a sefydliadau nid-er-elw | Elusennau a sefydliadau nid-er-elw | | | | |
| Cryptoarian | Gwefannau cryptoarian | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau ariannol | Gwefannau sy’n ymwneud â chyllid, gan gynnwys cyngor ar fuddsoddi, ond nid pyrth Bancio Ar-lein | | | | |
| Llywodraeth | Gwefannau'r llywodraeth a gwefannau sy'n ymwneud â sefydliadau llywodraethol | | | | |
| Cyfreithiol | Gwefannau Cyfreithwyr/Twrneiod/Bargyfreithwyr, cymdeithasau cyfreithiol a gwefannau lle mai’r Gyfraith yw eu holl thema. | | | | |
| Gwybodaeth feddygol | Gwefannau a chanddynt gynnwys yn ymwneud ag iechyd a materion meddygol | | | | |
| Milwrol | Gwefannau yn disgrifio arfau rhyfel, gan gynnwys rhai mewn cyd-destun hanesyddol | | | | |
| Bancio ar-lein | Gwefannau sy’n darparu mynediad at fancio ar-lein, neu wasanaeth rheoli cardiau credyd ar-lein | | | | |
| Benthyciadau diwrnod cyflog | Darparwyr "Benthyciadau Diwrnod Cyflog" ar-lein; benthyciadau arian parod tymor byr, fel arfer gyda chyfraddau llog uchel | | | | |

## Gemau Ar-lein

| **Categori[11]** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gemau addysgol | Gemau ar-lein gyda’r bwriad o ddysgu a hunan-wella | | | | |
| Siopau gemau a chyhoeddwyr | Gwefannau sy'n darparu dilysiad ar gyfer consolau gemau a’r cynnwys a ddefnyddir ynddynt | | | | |

[11] Mae gemau ar-lein yn cael eu rhwystro er mwyn sicrhau nad oes mynediad at gemau diangen. Efallai y bydd ysgolion am ganiatáu gemau penodol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â’r ysgol, megis E-chwaraeon fel offeryn addysgol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau gemau cyfrifiadurol | Gwefannau sy’n ymwneud â gemau cyfrifiadurol, ond nid gemau y mae modd eu chwarae mewn porwr | | | | |
| Gemau fideo | Gwefannau sy'n darparu gemau y gellir eu chwarae mewn porwr | | | | |

## Gwybodaeth a Chyfeirio

| Categori | Disgrifiad | Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 | Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13 | Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefydliadau Academaidd | Gwefannau ysgolion, prifysgolion, colegau a chanolfannau dysgu eraill | | | | |
| Offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) | Mae offer Deallusrwydd Cyffredinol Artiffisial (AGI) yn set o feddalwedd a thechnoleg sy'n ceisio efelychu neu ddyblygu deallusrwydd dynol ar draws ystod eang o dasgau. Mae'r offer hyn wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg, yn addasadwy ac yn gallu dysgu a gwella ar eu pennau eu hunain. Gellir eu defnyddio ar gyfer cerbydau awtonomaidd, sgwrsfotiaid, a chynorthwywyr rhithwir. Mae enghreifftiau yn cynnwys fframweithiau dysgu peiriannau, llyfrgelloedd Prosesu Iaith Naturiol (NLP) a saernïaethau dysgu dwfn | | | | |
| Llyfrau a Llenyddiaeth | Gwefannau sy'n gwerthu, adolygu neu drafod llyfrau neu lyfrau sain mewn unrhyw fformat | | | | |
| Cyfrifiadura ac Electronig | Gwefannau sy'n ymwneud â chyfrifiadura ond nid gemau. e.e. ieithoedd rhaglennu | | | | |
| Geiriaduron a Gwyddoniaduron | Deunydd cyfeirio ac Adnoddau yn ymwneud â phynciau cyffredinol. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | Gwefannau sy’n darparu deunyddiau a gwybodaeth sy’n cynorthwyo’r dysgu | | | | |
| Amgylchedd | Gwybodaeth ac astudiaethau yn ymwneud ag organebau byw a'u cynefin naturiol. | | | | |
| Chwilio am ddelwedd | Cyfeiriadau URL a ddefnyddir ar gyfer chwilio am ddelwedd | | | | |
| Rhannu Gwybodaeth | Gwefannau Sut i, Addysgol a Holi ac Ateb | | | | |
| Mapio | Gwefannau sy’n darparu gwasanaethau mapio daearyddol gan gynnwys y rhai sy’n hyrwyddo neu’n darparu cyfle i gynllunio teithiau | | | | |
| Amgueddfeydd a Diwylliant | Gwefannau sy’n hyrwyddo, dangos a/neu arddangos gwaith celf neu wrthrychau o arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol | | | | |
| Newyddion | Gwefannau sydd â’r prif amcan o gyflwyno newyddion lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, neu newyddion sy’n ymwneud â phwnc penodol | | | | |
| Gwleidyddiaeth | Gwefannau sy’n perthyn i blaid Wleidyddol neu wefannau sy’n seiliedig ar wleidyddiaeth yn gyfan gwbl | | | | |
| Hamdden a Hobïau | Gweithgareddau awyr agored, Celf a Chrefft. | | | | |
| Cyfeirio | E.e. Yellow Pages | | | | |
| Chwilotwyr | Gwefannau sy'n darparu swyddogaeth chwilio’r we | | | | |
| Addysg Rhyw | Gwefannau addysgol sy’n ymwneud â gweithgarwch rhywiol, gan gynnwys atgynhyrchu, atal cenhedlu, a rhyw diogel | | | | |
| Cyfieithu | Gwefannau sy’n darparu gwasanaethau cyfieithu, fel blociau o destun, neu sy’n darparu cyfieithiad o wefan gyfan | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Tywydd | Gwefannau pwrpasol ar gyfer gwybodaeth a rhagolygon y tywydd | | | | |

## Maleiswedd a Hacio

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Hacio | Gwefannau sy’n canolbwyntio ar hacio/cracio, ni waeth a yw hynny at ddibenion diogelwch “het wen”, neu at ddibenion maleisus “het ddu” | | | | |
| Enwau Parth Rhyngwladol | Parthau sy'n cynnwys nodau nad ydynt yn ASCII sy'n cael eu cyfieithu i punycode | | | | |
| Maleiswedd a Gwe-rwydo | Gwefannau sy’n lletya feirysau, maleiswedd, meddalwedd hysbysebu, ysbïwedd neu ymwelwyr diwahoddiad | | | | |
| Cydradd-i-gydradd | Gwefannau rhwydweithio rhwng cyfoedion | | | | |
| Lladrad Hawlfraint | Gwefannau sy’n cynnwys deunydd o dan hawlfraint sydd wedi’i ladrata i’w lawrlwytho neu ei ffrydio yn anghyfreithlon | | | | |
| Dirprwyon a Rhwydweithiau Preifat Rhithwir (VPNs) | Gwefannau a gwasanaethau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad at gynnwys mewn unrhyw ffordd sy'n osgoi hidlo neu fonitro cyfeiriad URL | | | | |
| Gwasanaethau beth yw fy IP | Gwefannau a gwasanaethau sy'n arddangos eich cyfeiriad IP cyhoeddus | | | | |

## Pobl a Chymdeithas

| Categori | Disgrifiad | Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 | Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13 | Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Celf Corff | Gwefannau sy’n hyrwyddo, gwerthu, hysbysebu neu drafod unrhyw addasiadau i’r corff fel tyllau mewn rhannau o’r corff a thatŵs | | | | |
| Iechyd a Ffitrwydd | Gwefannau pwrpasol ar gyfer iechyd a ffitrwydd, campfeydd, blogiau ffitrwydd, gwefannau iechyd | | | | |
| Y Cartref a’r Ardd | Gwefannau pwrpasol ar gyfer prosiectau gweithio ar y cartref a garddio fel hobi, gan gynnwys gwefannau sy'n gwerthu neu'n adolygu offer pweredig neu gynhyrchion garddio | | | | |
| Chwilio am Swydd | Gwefannau ar gyfer chwilio am swydd | | | | |
| Ocwlt | Gwybodaeth, trafodaeth ac adnoddau yn ymwneud â deunydd cyfriniol, goruwchnaturiol a ffugwyddonol | | | | |
| Magu Plant a Babanod | Gwefannau sy'n darparu gwybodaeth neu gynhyrchion ar gyfer magu plant, beichiogrwydd, babanod a phlant bach | | | | |
| Anifeiliaid anwes | Gwefannau sy'n gwerthu neu'n trafod anifeiliaid anwes neu nwyddau sy’n gysylltiedig ag anifeiliaid anwes | | | | |
| Eiddo Tirol | Gwefannau sy’n trafod, hyrwyddo/marchnata a rhoi gwybodaeth am rentu, prynu neu werthu eiddo tirol neu eiddo | | | | |
| Crefydd | Gwefannau lle mai crefydd yw’r brif thema/cynnwys | | | | |
| Gwyddorau Cymdeithasol | Cynnwys sy'n ymwneud â Phobl, Diwylliant dynol a Gwareiddiad. Yn cynnwys | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol a sefydliadau cymunedol | | | | |
| Teganau | Gwefannau sy'n hyrwyddo, trafod a gwerthu teganau a gemau | | | | |
| Cerbydau | Gwefannau sy'n hysbysebu, hyrwyddo, trafod a chynnig gwybodaeth am gerbydau a cheir | | | | |
| Priodasau | Gwefannau sy'n trafod priodasau neu'n gwerthu eitemau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â phriodasau | | | | |

## Siopa a Theithio

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Cyfnod Allweddol 3** | **TGAU ac Ôl-16** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dillad ac Ymddangosiad | Gwefannau sy'n gwerthu, hyrwyddo a thrafod dillad, esgidiau, gemwaith a ffasiwn | | | | |
| Bwyd a Bwyta Allan | Gwefannau sy'n ymwneud ag adolygiadau bwyd, ryseitiau, bwytai ac arlwyo | | | | |
| Siopa | Gwefannau lle gellir prynu o unrhyw fath | | | | |
| Teithio | Gwefannau sy'n gysylltiedig â theithio, cludiant a gwyliau | | | | |

## Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Blogiau | Gwefannau sy'n cynnal cynnwys blogiau o unrhyw fath | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwilio am Gariad | Parthau a chyfeiriadau URL sy'n darparu gwasanaethau chwilio am gariad a chwmnïaeth | | | | |
| Fforymau Trafod | Gwefannau pwrpasol ar gyfer fforymau trafod, e.e. phpBB | | | | |
| Negeseua a Chynadledda | Gwefannau sy'n cynnwys cleientiaid negeseua a gwefannau negeseua ar y we, yn ogystal ag unrhyw fath o wasanaeth sgwrsio seiliedig ar Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd. | | | | |
| Rhwydweithio Cymdeithasol[12] | Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol | | | | |

## Y We a Seilwaith

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6** | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 13** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Hysbysebu | Gweinyddwyr hysbysebion a chyfeiriadau URL sy’n hysbysebion | | | | |
| Connect for Chromebooks | Parthau a chyfeiriadau URL a ddefnyddir ar gyfer gwasanaeth Connect for Chromebooks Google | | | | |
| Cyfleu Cynnwys | Rhwydweithiau Cyfleu Cynnwys a gweinyddwyr seilwaith atodol ar gyfer gwefannau cyfredol amrywiol | | | | |
| Apiau Hysbysu Amlygiad i Covid-19 | Cymwysiadau symudol a ddatblygwyd gan awdurdodau iechyd cyhoeddus sy'n defnyddio'r System Hysbysu Amlygiad i Covid-19 a ddatblygwyd gan Google ac Apple | | | | |

[12] Gwyrdd i staff gyfathrebu â'u cymunedau ysgol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DNS dros HTTPS | Is-barthau/cyfeiriadau URL a ddefnyddir i hwyluso'r defnydd o DNS dros HTTPS | | | | |
| E-bost[13] | Gwefannau pwrpasol ar gyfer e-bost/gwebost | | | | |
| Rhannu Ffeiliau | Gwefannau sy'n cynnig gwasanaethau storio ffeiliau ar-lein ar weinyddion o bell at ddibenion wrth gefn neu gyfnewid | | | | |
| Lletya Delweddau: Wedi'i gymedroli | Gwefannau sy'n darparu gwasanaethau lletya delweddau sy'n cael eu fetio neu eu rheoli gyda pholisi amodau defnyddio neu'n cael eu cymedroli gan bobl | | | | |
| Lletya Delweddau: Heb ei gymedroli | Gwefannau sy'n darparu gwasanaethau lletya delweddau fel cynnwys pornograffig neu gynnwys sy'n annymunol mewn unrhyw ffordd arall | | | | |
| Profion Cyflymder y Rhyngrwyd | Gwasanaethau gwe cyhoeddus a ddefnyddir i fesur cyflymder cysylltiad rhyngrwyd | | | | |
| Parthau wedi'u Parcio | Parthau gwe anweithredol "wedi'u parcio" gan gofrestrydd, hysbysebwr neu berchennog parth | | | | |
| Pyrth | Gwefan sy'n integreiddio ffynonellau amrywiol, e-byst, fforymau ar-lein, a chwilotwyr. | | | | |
| Offer Cysylltu-o-bell[14] | Gwefannau sy'n cynnig offer meddalwedd bwrdd gwaith ac o bell | | | | |
| Meddalwedd | Parthau a chyfeiriadau URL a ddefnyddir gan becynnau meddalwedd cyffredin | | | | |
| Diweddariadau Meddalwedd | Parthau a ddefnyddir i lawrlwytho diweddariadau meddalwedd | | | | |
| Haenen Socedi Diogel (SSL) / | Parthau cefnogi ar gyfer gwasanaethau SSL gan gynnwys Awdurdodau Tystysgrif, | | | | |

[13] Yr opsiwn i rwystro e-bost personol a chaniatáu e-bost Hwb yn unig er mwyn helpu i liniaru peryglon gwe-rwydo ar e-bost

[14] Gellid caniatáu peth meddalwedd o bell 'wedi'i hamseru' i ganiatáu cefnogaeth i ddyfeisiau

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhestr Diddymu Tystysgrif (CRL) | Rhestrau Diddymu Tystysgrifau, Protocol Statws Tystysgrif Ar-lein (OCSP) a gweinyddwyr Dilysu Estynedig | | | | |
| Olrhain | Gwefannau y gwyddys eu bod yn olrhain ystadegau ymwelwyr at ddibenion dadansoddeg ac adrodd | | | | |
| Byrhau URL | Gwefannau sy'n darparu gwasanaeth byrhau ac anfon/cysylltu cyfeiriadau URL | | | | |
| Gwe-letya | Gwefannau sy'n cynnig enwau parth a gwasanaethau gwe-letya | | | | |